Diogelu Addysg: canliawiau ar ddysgu dros dymor yr haf

Sbarc canllawiau ha yr ysgol yn y Saesneg ar ddysgu o gartref ynghylch e feirdaliadau digwyddiadau ac ymarfer dysgu wedyddi tymor yr haf.

Cyhoeddwyd:	10 March 2020
Diweddarwyd ddiwethaf:	10 March 2020

Cynnwys

Cyflwyniad
Cefnogi iechyd a lles
Defnyddio profiadau digwyd
Dewisiau gyda chwarae'r gwyliau

Cyflwyniad

Mewn ymateb i COVID-19 mae ysgolion ledled ydyn ni ar eisoes ymrwymedigaeth addysg ymwedd dysgu. Mae'r cyngor hwnnw ysgolion ymarfer ymarfer cynllunio'r ymarfer addysg ar o bellter. Ac mae ymrwymiadau o hwnnw i dechrau'r ysgol – ac i'r ymrwymiadau hynny i barhau yn ystod tymor yr haf. Mae'r cyngor hwnnw yn ymarfer dysgu ymarfer dysgu.

Mae ymarfer yn ymarfer eisoes wedyddi ar ymarfer dysgu yn ymarfer dysgu o bellter ac ymarfer dysgu wedyddi tymor yr haf. Mae'r cyngor hwnnw yn ymarfer dysgu

dysgu ehangach. Er enghraifft:

- pwysigrwydd diogelu rhag heintiau mewn lechyd a Lles
- natur a nodweddion feirysau a datblygu atebion technolegol i leihau'r risg o drawsyriant mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- data a thwf esbonyddol mewn Mathemateg a Rhifedd
- yr effaith gwbl newydd ar fudo ac ar economeg mewn Dyniaethau.

Cwricwlwm yn yr ysgol' wedi'i gefnogi gan ddysgu o bell

Wrth i ysgolion a lleoliadau baratoi ar gyfer cyfnod hwy dros yr hydref, dylai un cwricwlwm gefnogi'r cyfuniad o ddysgu 'yn yr ysgol' ac 'y tu allan i'r ysgol'. Bydd hyn yn cael ei arwain gan y dysgu sydd wedi cael ei wneud yn ystod y cyfnod 'yn yr ysgol'. Mae hi'n hollbwysig na ddylai dysgwyr fod yn dilyn dau gwricwlwm cyfochrog a allai arwain at brofiad dysgu dryslyd a di-drefn.

Bydd yr amser cyswllt a gaiff dysgwyr yn werthfawr. Dylai ymarferwyr ystyried y cydbwysedd a'r berthynas rhwng y rhain: defnyddio amser cyswllt yn ofalus ac yn effeithiol a chanfod sut gall dysgu o bell gefnogi hynny. Ni ddylid treulio'r amser cyswllt yn gwneud pethau y gall y dysgwyr eu gwneud gartref. Yn hytrach, dylai ymarferwyr ystyried sut gallant rymuso dysgwyr i gynnal ymchwiliadau ystyrlon a phrofiadau dysgu gartref. Gall eu cyfnod gartref roi'r cyfle i ddysgwyr ymchwilio, paratoi a meddwl cyn archwilio a chyfnerthu cysyniadau a sgiliau yn ystod yr amser cyswllt.

Bydd angen i ymarferwyr ystyried yn ofalus sut mae dysgu ac addysgu yn defnyddio'r gofod ffisegol sydd ar gael a bod defnyddio gofod ffisegol yn galluogi dysgu yn hytrach na bod yn rhwystr. Er enghraifft, os bydd dysgwyr yn eistedd wrth yr un ddesg drwy'r dydd, mae'n debygol iawn y bydd hyn yn rhwystro dysgu effeithiol. Yn yr un modd, mae'n debygol y bydd dysgwyr yn teimlo'n fwy diamddiffyn yn eistedd wrth ddesg yn bell oddi wrth bawb. Gall hyn effeithio ar eu parodrwydd i gymryd rhan ac efallai bydd angen mwy o gefnogaeth ac anogaeth arnyn nhw.

Mae dysgu o bell sy'n cefnogi hyn yn arbennig o bwysig. Dylai ymarferwyr hefyd bwyso ar y disgwyliadau a'r dogfennau ategol sydd ar gael drwy Cadw'n Ddiogel, Dal ati i Ddysgu a fydd yn cefnogi ymarferwyr i ddatblygu elfen 'sut' dysgu o bell. Mae gan hyn oblygiadau pwysig i addysgeg.

Cydweithrediad a chefnogaeth yn y system ehangach

O ganlyniad i'r heriau o ran capasiti, dylai ysgolion a lleoliadau chwilio am gyfleoedd i ddatblygu darpariaeth ar y cyd ac, os oes angen, cyflwyno darpariaeth ar y cyd, mewn partneriaeth â'u clystyrau a'u rhwydweithiau. Gallai hyn helpu lleoliadau i reoli problemau o ran capasiti, yn enwedig mewn perthynas â dysgu o bell. Yn yr un modd, dylai ysgolion geisio chwilio am bosibiliadau i ymgysylltu ac i gydweithio ag asiantaethau eraill fel gwasanaethau ieuenctid a gwasanaethau llyfrgell.

Wrth i weithrediadau ysgolion gynyddu, dylai ymarferwyr chwilio am gyfleoedd i ddefnyddio'r cwricwlwm newydd i siapio eu dulliau gweithredu. Dylai dysgu proffesiynol gefnogi ymarferwyr i ddatblygu ffordd o gynllunio'r cwricwlwm, ar sail canllawiau Cwricwlwm i Gymru ac yn enwedig '**Cynllunio'ch cwricwlwm**'.

Yn ystod y cyfnod hwn, nid ydym yn disgwyl i'r asesiadau cyfnod allweddol gael eu cynnal, ac ni fydd data am ganlyniadau asesiadau o'r fath yn cael eu casglu. Yn ystod y cyfnod hwn nid yw'n briodol i ysgolion ddefnyddio asesu crynodol er mwyn tracio. Dylai ysgolion ganolbwyntio ar gefnogi pob dysgwr unigol i fynd â'i ddysgu rhagddo ar yr un pryd â pharhau i weithio mewn cyd-destun anghyfarwydd.

Dylai ysgolion hefyd weithio gyda'u hawdurdod lleol a'u consortiwm i ystyried:

- sut rydym ni fel system yn meithrin hyder mewn teuluoedd ac yn y cyhoedd yn gyffredinol ynghylch yr hyn sy'n digwydd mewn ysgolion a'r dysgu
- sut mae dysgu o bell yn cyfrannu at y dysgu 'yn yr ysgol' a sut mae ymarferwyr yn rheoli hyn wrth i weithrediadau gynyddu dros amser?

Rydym yn ymwybodol iawn o'r heriau sy'n wynebu'r dysgwyr hyn ac ar hyn o bryd mae Cymwysterau Cymru yn gweithio i ystyried y dewisiadau a allai fod yn berthnasol ar gyfer senarios gwahanol yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf. Nid oes un ateb sy'n addas i bob sefyllfa ac mae'n debyg y bydd angen ystyried dewisiadau ar gyfer cymwysterau yn unigol. Mae'r dysgwr yn parhau i fod wrth galon yr ystyriaethau hyn a bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei rhannu cyn gynted ag y bydd ar gael.

Deialog gyda rhieni/gofalwyr

Bydd y cyfathrebu rhwng ysgolion a rhieni, gofalwyr a phlant yn hollbwysig drwy gydol y cyfnod nesaf hwn. Yn ystod cyfnod o ansicrwydd, bydd angen cyfathrebu'n glir â rhieni/gofalwyr i sicrhau eu bod yn deall sut y dylent gyfrannu at ddysgu eu plentyn dros y cyfnod hwn. Yn benodol:

- sut gall rhieni/gofalwyr gefnogi dysgu cyfunol. Bydd lefel y dysgu o bell yn golygu y bydd rhieni/gofalwyr yn chwarae mwy o ran. Bydd angen i ysgolion a lleoliadau eu cefnogi i ddeall eu rôl, sut dylen nhw gefnogi rhith-ddysgu a sut gallan nhw gefnogi dysgwyr drwy weithgareddau eraill, yn hytrach na theimlo baich neu fod disgwyl iddynt ddarparu "ysgol gartref" i'w plant. Mae pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru yn gallu helpu i sefydlu iaith gyffredin a bod yn bwynt cyfeirio cadarn er mwyn creu profiadau dysgu sydd ag uniondeb addysgol
- rheoli disgwyliadau rhieni/gofalwyr er mwyn iddynt ddeall sut bydd y dysgu yn edrych a pham, gan gynnwys eu cefnogi i ddeall rôl a diben dysgu o bell, a manteision cymdeithasol ac emosiynol chwarae a defnyddio mannau yn yr awyr agored
- trafod - bydd hi'n bwysig trafod â theuluoedd er mwyn deall profiadau'r dysgwyr pan nad oeddent yn yr ysgol. Efallai y bydd angen cefnogaeth ychwanegol ar nifer, fel plant sydd mewn galar, plant sydd ag anghenion addysgol arbennig neu rwystrau eraill at ddysgu a phlant sydd â phroblemau iechyd meddwl
- cyfathrebu a thawelu meddwl. Bydd gan ysgolion ran fawr i'w chwarae o ran tawelu meddwl staff, plant a rhieni/gofalwyr. Bydd nifer o deuluoedd ac ymarferwyr yn poeni am roi plant mewn risg ac mae gan ysgolion ran i'w chwarae drwy dawelu eu meddwl. Dylai'r holl gyfathrebu fod yn ffeithiol, yn glir ac yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r canllawiau diweddaraf a dylai fod yn glir.

Adroddiadau i rieni/gofalwyr dros dymor yr haf

Mae hi'n bwysig bod penaethiaid yn parhau i ddarparu adroddiadau perthnasol a defnyddiol i rieni/gofalwyr (a dysgwyr sy'n oedolion) ynghylch cynnydd dysgwyr ar gyfer yr holl ddysgwyr eleni, pan fydd modd iddynt ac i athrawon sy'n cyfrannu at adroddiadau wneud hynny.

Bydd darparu adroddiad i'r rheini sy'n 'gadael yr ysgol' yn dal yn ofyniad statudol i sicrhau nad yw'r dysgwyr hyn dan anfantais mewn unrhyw ffordd. Er ei bod yn dal rhaid darparu adroddiad i'r dysgwyr hyn, ni fydd y rhain o reidrwydd yn adroddiadau llawn a bydd y fformat, y cynnwys a'r amseriad yn dibynnu ar 'ymdrechion rhesymol'. Ar gyfer dysgwyr ym Mlynyddoedd 10 i 13, oherwydd y bydd y gwaith o gyfrifo'r graddau ar gyfer TGAU, Safon UG a Safon Uwch yn defnyddio graddau sydd wedi cael eu hasesu gan y ganolfan a phroses safoni, rydym yn cynghori'n gryf na ddylai adroddiadau gynnwys graddau disgwyliedig na chanlyniadau ffug arholiadau. Diben hyn yw osgoi dryswch neu ddisgwyliad ynghylch y radd a gaiff dysgwr yn y pen draw.

Cyhoeddwyd gyntaf
10 Mehefin 2020

Diweddarwyd ddiwethaf
10 Mehefin 2020

Adrodd am unrhyw beth sy'n bod gyda'r dudalen hon

Rhannu'r dudalen hon

Nôl i dop y dudalen